STATUTORY INSTRUMENTS

1975 No. 1329

REPRESENTATION OF THE PEOPLE

The Elections (Welsh Forms) Regulations 1975

Made - - - -	11*th July* 1975
Laid before Parliament	22*nd July* 1975
Coming into Operation	21*st August* 1975

In exercise of the powers conferred on me by sections 42 and 171(5) of the Representation of the People Act 1949(**a**) and by section 2(2) of the Welsh Language Act 1967(**b**), and of all other powers enabling me in that behalf, I hereby make the following Regulations:—

1. These Regulations may be cited as the Elections (Welsh Forms) Regulations 1975 and shall come into operation fourteen days after they have been approved by both Houses of Parliament.

2. The Interpretation Act 1889(**c**) shall apply to the interpretation of these Regulations as it applies to the interpretation of an Act of Parliament.

3. The Elections (Welsh Forms) (No. 5) Regulations 1970(**d**), the Elections (Welsh Forms) Regulations 1973(**e**), and the Elections (Welsh Forms) Regulations 1974(**f**) are hereby revoked.

4. The form set out in Part I of Schedule 1 to these Regulations is hereby prescribed as the version partly in Welsh and partly in English which shall be used in place of Form A in the Schedule to the Representation of the People Regulations 1974(**g**) (return by occupier as to residents) in connection with the preparation of registers of electors in Wales.

5. The form set out in Part II of Schedule 1 to these Regulations is hereby prescribed as the version partly in Welsh and partly in English which shall be used by an electoral registration officer in Wales in place of Form D in the Schedule to the Representation of the People Regulations 1974 (proxy paper).

6. The forms set out in Part III of Schedule 1 to these Regulations are hereby prescribed as the versions partly in Welsh and partly in English which shall be used at a parliamentary election in Wales in place of Forms E and F in the Schedule to the Representation of the People Regulations 1974 (official poll cards).

7. The forms set out in Part I of Schedule 2 to these Regulations are hereby prescribed as the Welsh versions which may be used in connection with the preparation of registers of electors in Wales in place of Form O (claim to be registered as an elector) and Form P (objection to an entry in the electors lists) in the Schedule to the Representation of the People Regulations 1974.

(**a**) 1949 c. 68.
(**b**) 1967 c. 66.
(**c**) 1889 c. 63.
(**d**) S.I. 1970/834 (1970 II, p. 2687).
(**e**) S.I. 1973/1272 (1973 II, p. 3821).
(**f**) This Instrument was not approved by both Houses of Parliament and accordingly was not registered as a Statutory Instrument.
(**g**) S.I. 1974/648 (1974 I, p. 2541).

8. The forms set out in Part II of Schedule 2 to these Regulations are hereby prescribed as the Welsh versions which may be used in connection with elections in Wales in place of the following forms in the Schedule to the Representation of the People Regulations 1974, namely, Form Q (application to vote by post owing to occupational or physical incapacity), Form R (application to vote by post owing to change of residence), Form S (application to be treated as an absent voter for a particular election), Form U (application for appointment of proxy) and Form V (application by a proxy to vote by post).

9. The forms set out in the Schedules to these Regulations may be used with such variations as the circumstances may require.

Roy Jenkins,
One of Her Majesty's Principal Secretaries of State.

Home Office,
Whitehall.
11th July 1975.

SCHEDULE 1

PART I

FORM A: RETURN BY OCCUPIER AS TO RESIDENTS

THIS INFORMATION IS REQUIRED BY LAW

Representation of the People Acts

Register of Electors 19

Qualifying date: 10th October 19 .
Register in force for twelve months from 16th February 19 .

I have to compile and publish an up-to-date Register of Electors for 19 . To do so, I need information which you, as occupier, are obliged by law to supply.

Registers of Electors are needed so that everyone who is entitled to vote at parliamentary or local elections may do so. A person whose name does not appear in the Register cannot vote.

The notes within tell you how to fill up the form, but if you need further help, I shall be glad to give it.

You should complete the form even if you intend to move house after the qualifying date.

Please complete and sign this form, and return it to me now—there is no need to wait until the qualifying date.

The Electoral Registration Officer

FILL UP THIS FORM CAREFULLY
THE RIGHT TO VOTE MAY DEPEND ON IT

FFURFLEN A: ATEB GAN DDEILIAD YNGLŶN Â PHRESWYLWYR

GOFYNNIR AM Y WYBODAETH HON GAN Y GYFRAITH

Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl

Cofrestr Etholwyr 19

Dyddiad cymhwyster: Hydref 10fed 19 .
Cofrestr mewn grym am ddeuddeg mis o Chwefror 16eg 19 .

Rhaid i mi ddarparu a chyhoeddi Cofrestr Etholwyr gyflawn ar gyfer 19 . I wneud hynny, y mae arnaf angen gwybodaeth y mae'n rhaid i chi, fel deiliad, ei rhoi i mi yn unol â'r gyfraith.

Y mae'r Cofrestrau Etholwyr yn angenrheidiol er mwyn i bawb sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau seneddol neu lywodraeth leol, gael gwneud hynny. Ni chaiff neb bleidleisio os na fydd ei enw ar y Gofrestr.

Y mae'r nodiadau ar yr ochr fewn yn dweud wrthych sut i lenwi'r ffurflen, ond os bydd arnoch eisiau help ychwanegol, bydd yn dda gennyf ei roi.

Dylech lenwi'r ffurflen hyd yn oed os ydych yn bwriadu symud i dŷ arall wedi'r dyddiad cymhwyster.

Llenwch y ffurflen hon a'i llofnodi, a danfonwch hi'n ôl i mi yn awr, os gwelwch yn dda—nid oes angen i chi aros tan y dyddiad cymhwyster cyn gwneud hynny.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

LLENWCH Y FFURFLEN HON YN OFALUS
GALL EICH HAWL I BLEIDLEISIO
DDIBYNNU ARNI

HOW TO COMPLETE THE FORM

1 You are required to enter

All British subjects (Commonwealth citizens are British subjects) and citizens of the Irish Republic who will be resident at your address on **10th October 19** and who will be 18 or over by 15th February 19 **(this means all those born before 16.2. : they may be only 16 or 17 now, but they can vote at elections as soon as they are 18)**—

Including

(*a*) Those who normally live at your address but are temporarily away, e.g. on holiday; as students; in hospital (including informal patients in psychiatric hospitals); or as reservists called up for service or training;

(*b*) Resident guests (but not short-stay visitors);

(*c*) Lodgers and resident domestics;

(*d*) Anyone who is away working, unless his absence will be for more than six months;

(*e*) Merchant seamen who, but for their job, would live at your address (which may be a hostel or club). Mark their names with an "M" and they will be invited to vote by post or proxy.

SUT I LENWI'R FFURFLEN

1 Dylech gynnwys

Pob deiliad Prydeinig (y mae dinasyddion y Gymanwlad yn ddeiliaid Prydeinig) a dinasyddion o Werinlywodraeth Iwerddon a fydd yn preswylio yn eich cyfeiriad ar **Hydref 10fed 19** ac a fydd yn 18 oed neu'n hŷn erbyn Chwefror 15fed 19 **(mae hyn yn golygu pawb a anwyd cyn 16.2. : efallai mai 16 neu 17 ydynt ar hyn o bryd, ond gallant bleidleisio mewn etholiadau cyn gynted ag y byddant yn 18)**—

Gan gynnwys

(*a*) Y rhai hynny sydd fel rheol yn byw yn eich cyfeiriad chi ond sydd oddi cartref dros dro, e.e. ar wyliau; fel myfyrwyr; yn yr ysbyty (gan gynnwys cleifion anffurfiol mewn ysbytai seiciatrig); neu fel aelodau o'r cefnlu a alwyd i wasanaethu neu i gael hyfforddiant;

(*b*) Ymwelwyr preswyl (ond nid ymwelwyr dros amser byr);

(*c*) Lletywyr a gwasanaethyddion;

(*d*) Unrhyw un sy'n gweithio oddi cartref, os na fydd yn absennol am fwy na chwe mis;

(*e*) Morwyr llongau masnach a fyddai, onibai am eu gwaith, yn byw yn eich cyfeiriad (a all fod yn hostel neu'n glwb). Rhowch "M" wrth eu henwau, ac fe'u gwahoddir i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

2 Do not enter

(*a*) Aliens;
(*b*) Members of H.M. Forces;
(*c*) Crown servants employed outside the U.K.;
(*d*) British Council staff employed outside the U.K.;
(*e*) Wives or husbands of members of H.M. Forces, of Crown servants or of British Council staff employed outside the U.K. **if living abroad** to be with their husbands or wives.

Their names will be included in the register if they have made the necessary service declaration; to do this they should apply to their Service or Department or to the British Council.

3 Electors Lists

These lists can be checked at council offices etc. from 28th November. Claims in respect of names not included in the lists must be received by 16th December.

4 Postal voting

If you think you may be entitled to vote by post, e.g. because you are disabled, because your work takes you away from home or because you are leaving the area, ask the electoral registration officer for an application form. **Do not wait** for an election before applying.

5 Jury Service

Electors who are over 65 are ineligible on age grounds for jury service. Those who are ineligible on other grounds, or who are exempt, will be able to indicate this if they receive a jury summons from the Crown Court.

2 Peidiwch â chynnwys

(*a*) Tramorwyr;
(*b*) Aelodau o Luoedd Ei Mawrhydi;
(*c*) Gweision y Goron sy'n gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol;
(*d*) Aelodau o staff y Cyngor Prydeinig sy'n gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol;
(*e*) Gwŷr neu wragedd y rhain os ydynt yn byw **y tu allan** i'r Deyrnas Gyfunol er mwyn bod gyda'u gwŷr neu'u gwragedd.

Rhoddir eu henwau ar y gofrestr wedi iddynt wneud y datganiad gwasanaeth angenrheidiol; i wneud hyn, dylent anfon cais at eu Gwasanaeth neu eu Hadran neu at y Cyngor Prydeinig.

3 Rhestrau Etholwyr

Gellir archwilio'r rhestrau hyn mewn swyddfeydd cyngor etc. ar ôl Tachwedd 28ain. Rhaid derbyn ceisiadau ynglŷn ag enwau na chynhwyswyd yn y rhestrau, erbyn Rhagfyr 16eg.

4 Pleidleisio drwy'r post

Os ydych yn credu y gall fod gennych hawl i bleidleisio drwy'r post, e.e. oherwydd anallu corfforol, oherwydd eich bod yn gweithio oddi cartref neu'n symud o'r ardal, gofynnwch i'r swyddog cofrestru etholiadol am ffurflen gais. **Peidiwch ag aros** nes daw etholiad cyn gwneud cais.

5 Gwasanaeth Rheithwyr

Y mae etholwyr sydd dros 65 yn anghymwys o ran oedran i wasanaethu fel rheithwyr. Gall rhai sy'n anghymwys am resymau eraill, neu a ryddheir rhag gwasanaethu ddynodi hynny os cânt wŷs o Lys y Goron yn eu galw i wasanaethu fel rheithwyr.

HOW TO RETURN THE FORM

(*a*) Use the addressed envelope if one was supplied; or if you received the form in an envelope marked "Use this envelope for your reply", fold the form so that the electoral registration officer's address shows through the window **and seal the envelope.**

(*b*) If there was no envelope with it the form will be collected from you.

SUT I DDYCHWELYD Y FFURFLEN

(*a*) Defnyddiwch yr amlen a'r cyfeiriad arni os darparwyd un; neu os cawsoch y ffurflen mewn amlen wedi'i nodi "Use this envelope for your reply", plygwch y ffurflen fel y bo cyfeiriad y swyddog cofrestru etholiadol i'w weld drwy'r ffenestr, **a seliwch yr amlen.**

(*b*) Os na ddarparwyd amlen gyda'r ffurflen, fe ddaw rhywun heibio i'w chasglu.

Address/Cyfeiriad

No. of flat, room or floor (where applicable) Rhif y fflat, yr ystafell neu'r llawr (lle y bo'n addas)	Number of house (or name if not numbered) Rhif y tŷ (neu enw lle nad oes rhif)	Name of street or road Enw'r heol neu'r ffordd	Remainder of address Gweddill y cyfeiriad

Residents eligible to be included (see notes 1 and 2 on the left) *If none, please write "None"*

Preswylwyr sy'n gymwys i'w cynnwys (gweler nodyn 1 a 2 ar y chwith) *Os nad oes un, byddwch cystal ag ysgrifennu "Dim Un"*

Surname and title (Mr, Mrs, etc.) (BLOCK LETTERS) **Cyfenw a theitl** (Mr, Mrs, etc.) (LLYTHRENNAU BRAS)	**Full Christian names or forenames** (BLOCK LETTERS) **Enwau bedydd neu enwau blaen yn llawn** (LLYTHRENNAU BRAS)	If 18 or over by 16th February 19... enter a ✓ in this column Os yn 18 oed neu'n hŷn erbyn Chwefror 16eg 19..., rhowch ✓ yn y golofn hon	If under 18 on 16th February 19... but 18 by 15th February 19... give date of birth (see note 1) Os dan 18 oed ar Chwefror 16eg 19..., ond yn 18 erbyn Chwefror 15fed 19..., rhowch y dyddiad geni (gweler nodyn 1)	If a merchant seaman enter 'M' (see notes 1 and 2) Os morwr ar long fasnach rhowch 'M' (gweler nodyn 1 a 2)	**Jury Service** (see note 5) If over 65 by 16th February 19... enter a ✓ in this column **Gwasanaeth Rheithwyr** (gweler nodyn 5) Os byddwch tros 65 erbyn Chwefror 16eg 19... rhowch ✓ yn y golofn hon.

Other Residents

Is any part of your house/flat *separately* occupied by persons not entered above? *Please answer Yes or No:* ☐

Preswylwyr eraill

A oes unrhyw ran o'ch tŷ/fflat yn cael ei dal *ar wahân* gan bersonau nad yw eu henwau uchod? *Atebwch Oes neu Nac Oes:* ☐

Declaration

I declare that to the best of my knowledge and belief the particulars given above are true and accurate, and all those whose names are entered above are British subjects or citizens of the Irish Republic and will be 18 or over by 15th February 19 .

Datganiad

Yr wyf yn datgan, fod y manylion a roddir uchod yn wir ac yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, a bod pawb sydd â'u henwau uchod yn ddeiliaid Prydeinig neu'n ddinasyddion o Werinlywodraeth Iwerddon, ac y byddant yn 18 oed neu'n hŷn erbyn Chwefror 15 fed 19 .

Sign here
Llofnodwch yma

Date
Dyddiad

FORM D: PROXY PAPER

REPRESENTATION OF THE PEOPLE ACTS

Constituency .....
Polling District.....
Local government electoral area(s).....
.....
(Name of proxy).....
(Address) .....
.....
.....

is hereby appointed as proxy for

(Name of elector).....

who is qualified as a *service voter / resident to be registered for

(Qualifying address).....
.....

*Delete whichever is inapplicable

to vote for *him/her at *the parliamentary election for the above constituency on.....
.....
*any election for the above parliamentary constituency or local government electoral area(s) (*see* Note 1)

This proxy appointment is not valid until.....
Signature .....
Electoral Registration Officer
Address .....
.....
.....

Date.....

FFURFLEN D: PAPUR DIRPRWY

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Etholaeth .....
Dosbarth Pleidleisio.....
Rhanbarth(au) etholiadol llywodraeth leol.....
.....
(Enw'r dirprwy).....
(Cyfeiriad) .....
.....
.....

Penodir y sawl a enwyd uchod drwy hyn yn ddirprwy ar ran
(Enw'r etholwr).....
sy'n gymwys fel *pleidleisiwr / gwasnaethol / preswylydd i gael ei gofrestru ar gyfer
(Cyfeiriad cymhwyso) .....
.....

*Dileer yr hyn sy'n anaddas

er mwyn iddo bleidleisio ar ei ran *ef/hi *yn yr etholiad seneddol ar gyfer yr etholaeth uchod ar.....
.....
*mewn unrhyw etholiad ar gyfer yr etholaeth seneddol neu ranbarth(au) etholiadol llywodraeth leol uchod (*gweler* Nodyn 1)

Ni ddaw'r penodiad hwn i fod yn ddirprwy i rym tan.....
Llofnod .....
Swyddog Cofrestru Etholiadol
Cyfeiriad.....
.....
.....

Dyddiad.....

PART II Cont.

NOTES

1. If your appointment as proxy is for a particular parliamentary election, it will be valid for that election only. In other cases your appointment will continue in force until the electoral registration officer informs you to the contrary (e.g. because the elector cancels it).

If the elector is shown on this form as a resident, your appointment will be valid for all parliamentary and local government elections for the constituency and local government electoral area(s) named above, but not for community council elections.

If the elector is shown on this form as a service voter, your appointment will be valid for all parliamentary and local government elections for the constituency and local government electoral area(s) named above (including community council elections) unless the elector applies to vote by post at a particular parliamentary election. If he does this, your appointment will be suspended for that election only and you will be so informed.

If a ballot paper is issued to the elector at the polling station before you apply for a ballot paper on his behalf, you will not be entitled to vote as proxy.

2. To vote as proxy at an election you must go in person to the polling station for the elector's qualifying address unless you are entitled to vote by post as proxy. You are entitled to vote by post as proxy if either—

(*a*) you are entitled to vote by post as an elector in respect of your own vote at the election; or

(*b*) at a parliamentary election (but not at a local government election) your address is in a different area from the address for which the elector is registered.

Where (*b*) applies, the application cannot be allowed if your address and the address for which the elector is registered are in the same electoral division of a Welsh county and in the same community.

If you wish to vote by post as proxy, you must apply to do so on Form V, which may be obtained from the electoral registration officer.

3. It is an offence to vote, whether in person or by post, as proxy for some other person if you know that that person is subject to a legal incapacity to vote, e.g. if that person has been convicted and is detained in a penal institution in pursuance of his sentence.

NODIADAU

1. Os ar gyfer etholiad seneddol arbennig y penodwyd chi'n ddirprwy, bydd y penodiad mewn grym ar gyfer yr etholiad hwnnw'n unig. Mewn achosion eraill, bydd eich penodiad mewn grym nes i'r swyddog cofrestru etholiadol eich hysbysu'n wahanol (e.e. am fod yr etholwr wedi diddymu'r penodiad).

Os yw'n ymddangos ar y ffurflen hon fod yr etholwr yn breswylydd, bydd eich penodiad yn parhau mewn grym ar gyfer pob etholiad seneddol a llywodraeth leol yn yr etholaeth a'r rhanbarth(au) etholiadol llywodraeth leol a enwyd uchod, ond nid ar gyfer etholiadau cynghorau cymdeithas.

Os yw'n ymddangos ar y ffurflen mai pleidleisiwr gwasnaethol yw'r etholwr, bydd eich penodiad mewn grym ar gyfer pob etholiad seneddol a llywodraeth leol yn yr etholaeth a'r rhanbarth(au) etholiadol llywodraeth leol a enwyd uchod (gan gynnwys etholiadau cynghorau cymdeithas), os na fydd yr etholwr yn gwneud cais am bleidleisio drwy'r post mewn etholiad seneddol arbennig. Os gwna hyn, dirymir eich penodiad ar gyfer yr etholiad hwnnw'n unig, ac fe'ch hysbysir am hynny.

Os rhoir papur pleidleisio i'r etholwr yn yr orsaf bleidleisio cyn i chi wneud cais am bapur pleidleisio ar ei ran, ni fydd gennych hawl i bleidleisio fel dirprwy.

2. I bleidleisio fel dirprwy, rhaid i chi fynd yn bersonol i'r orsaf bleidleisio ar gyfer y cyfeiriad y cofrestrwyd yr etholwr ar ei gyfer oni bai fod gennych hawl i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy. Y mae gennych hawl i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy—

(*a*) os oes gennych hawl i bleidleisio drwy'r post fel etholwr oherwydd eich pleidlais eich hun yn yr etholiad; neu

(*b*) mewn etholiad seneddol (ond nid mewn etholiad llywodraeth leol) os yw'ch cyfeiriad chi heb fod o fewn yr un rhanbarth â'r cyfeiriad y cofrestrwyd yr etholwr ar ei gyfer.

Lle bo (*b*) yn gymwys, ni ellir caniatáu'r cais os yw eich cyfeiriad chi a'r cyfeiriad y cofrestrwyd yr etholwr ar ei gyfer yn yr un rhanbarth etholiadol mewn sir yng Nghymru ac yn yr un gymdeithas.

Os ydych yn dymuno pleidleisio drwy'r post fel dirprwy rhaid i chi wneud cais am hynny ar Ffurflen V y gellir ei chael oddi wrth y swyddog cofrestru etholiadol.

3. Y mae'n drosedd pleidleisio, naill ai'n bersonol neu drwy'r post, fel dirprwy ar ran rhyw berson arall os gwyddoch nad oes gan y person hwnnw hawl gyfreithiol i bleidleisio, e.e. os dedfrydwyd ef yn euog a'i gadw mewn sefydliad cosbi yn unol â'i ddedfryd.

PART III

FORM E: ELECTORS' OFFICIAL POLL CARD
FFURFLEN E: CERDYN PLEIDLEISIO SWYDDOGOL YR ETHOLWR

REPRESENTATION OF THE PEOPLE ACTS
DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Front of card

OFFICIAL POLL CARD
CERDYN PLEIDLEISIO SWYDDOGOL

Constituency
Etholaeth

.....

Polling Day .....
Dydd Pleidleisio

Your polling station will be
Eich gorsaf bleidleisio fydd

.....

Polling hours: 7 a.m. to 10 p.m.
Oriau pleidleisio: 7 a.m. hyd 10 p.m.

Number on Register.....
Rhif ar y Gofrestr
Name .....
Enw
Address .....
Cyfeiriad
.....
.....
.....
.....

Back of card

PARLIAMENTARY ELECTION

You need not take this card with you when you go to the polling station, but it will save time if you take it and show it to the clerk there.

When you go to the polling station, tell the clerk your name and address, as shown on the front of this card. The presiding officer will give you a ballot paper; see that he stamps the official mark on it before he gives it to you.

Mark your vote on the ballot paper secretly in one of the voting compartments. Put one X in the space to the right opposite the name of the candidate for whom you wish to vote. You may vote for only one candidate. If you put any other mark on the ballot paper your vote may not be counted.

Then fold the ballot paper so as to conceal your vote, show the official mark on the back to the presiding officer and put the paper into the ballot box.

If you spoil the ballot paper by mistake, do not destroy it; give it back to the presiding officer and ask for another.

If you have appointed a proxy to vote in person for you, you may nevertheless vote at this election if you do so before your proxy has voted on your behalf.

If you have been granted a postal vote, you will *not* be entitled to vote in person at this election; so please ignore this poll card.

ISSUED BY THE RETURNING OFFICER

ETHOLIAD SENEDDOL

Nid oes rhaid i chi fynd â'r cerdyn hwn i'r orsaf bleidleisio, ond bydd yn arbed amser os ewch ag e gyda chi a'i ddangos i'r clerc a fydd yno.

Wedi i chi gyrraedd yr orsaf bleidleisio, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad i'r clerc, fel y maent ar wyneb y cerdyn hwn. Cewch bapur pleidleisio gan y swyddog llywyddu; mynnwch weld ei fod yn rhoi'r nod swyddogol arno cyn ei estyn i chi.

Rhowch arwydd eich pleidlais ar y papur pleidleisio yn ddirgel yn un o'r cabanau pleidleisio. Rhowch un X yn y lle gwag ar y dde gyferbyn ag enw'r ymgeisydd yr ydych am bleidleisio drosto. Dros un ymgeisydd yn unig y cewch bleidleisio. Os rhowch unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

Yna plygwch y papur er mwyn cuddio'ch pleidlais, dangoswch y nod swyddogol ar gefn y papur i'r swyddog llywyddu, a rhowch y papur yn y blwch pleidleisiau.

Os digwydd i chi ddifetha eich papur pleidleisio drwy gamgymeriad, peidiwch â'i ddinistrio; rhowch ef yn ôl i'r swyddog llywyddu a gofynnwch iddo am un arall.

Os ydych wedi penodi dirprwy i bleidleisio yn eich lle, fe ellwch er hynny bleidleisio eich hun yn yr etholiad hwn os gwnewch hynny cyn i'ch dirprwy bleidleisio yn eich lle.

Os cawsoch ganiatâd i bleidleisio drwy'r post *ni* fydd gennych hawl i bleidleisio'n bersonol yn yr etholiad hwn; felly anwybyddwch y cerdyn pleidleisio hwn.

CYHOEDDWYD GAN Y SWYDDOG CANLYNIADAU

FORM F: PROXY'S OFFICIAL POLL CARD
FFURFLEN F: CERDYN PLEIDLEISIO SWYDDOGOL Y DIRPRWY

REPRESENTATION OF THE PEOPLE ACTS
DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Front of card

PROXY'S OFFICIAL POLL CARD
CERDYN PLEIDLEISIO SWYDDOGOL Y DIRPRWY

Proxy's name .....
Enw'r dirprwy

Proxy's address .....
Cyfeiriad y dirprwy

.....

Back of card

PARLIAMENTARY ELECTION

.....CONSTITUENCY

Polling day.....

The poll will be open from 7 a.m. to 10 p.m.

The elector named below whose proxy you are is entitled to vote at the polling station—

.....

.....

To vote as proxy you must go to that polling station. Tell the clerk that you wish to vote as proxy; give the name and qualifying address of the elector, as follows:—

Number on Register.....

Name .....

Address .....

.....

The presiding officer will give you the elector's ballot paper. The method of voting as proxy is the same as for casting your own vote.

It is an offence to vote as proxy for some other person if you know that that person is subject to a legal incapacity to vote, e.g. if that person has been convicted and is detained in a penal institution in pursuance of his sentence.

The person who appointed you as proxy may himself vote in person at this election if he is able, and wishes, to do so and if he votes before you vote on his behalf.

ISSUED BY THE RETURNING OFFICER

ETHOLIAD SENEDDOL

ETHOLAETH.....

Dydd pleidleisio.....

Bydd yr orsaf bleidleisio ar agor o 7 a.m. hyd 10 p.m.

Mae gan yr etholwr a enwir isod, yr ydych yn ddirprwy drosto hawl i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio yma—

.....

.....

I bleidleisio fel dirprwy, rhaid i chi fynd i'r orsaf bleidleisio honno. Dywedwch wrth y clerc eich bod am bleidleisio fel dirprwy; rhowch enw'r etholwr, a'r cyfeiriad y cofrestrwyd ef ar ei gyfer, fel hyn:—

Rhif ar y Gofrestr.....

Enw .....

Cyfeiriad.....

.....

Fe rydd y swyddog llywyddu bapur pleidleisio'r etholwr i chi. Y mae'r dull o bleidleisio fel dirprwy yr un fath â'r dull o roi eich pleidlais eich hun.

Y mae'n drosedd pleidleisio fel dirprwy ar ran rhyw berson arall os gwyddoch nad oes gan y person hwnnw hawl gyfreithiol i bleidleisio, e.e. os dedfrydwyd ef yn euog a'i gadw mewn sefydliad cosbi yn unol â'i ddedfryd.

Fe all y person a'ch penododd chi 'n ddirprwy bleidleisio ei hun yn bersonol os yw'n gallu ac yn dymuno gwneud hynny ac os rhydd ei bleidlais cyn i chi bleidleisio yn ei le.

CYHOEDDWYD GAN Y SWYDDOG CANLYNIADAU

SCHEDULE 2

PART I

FORM O: FORM OF CLAIM TO BE REGISTERED AS AN ELECTOR
FFURFLEN O: FFURFLEN GAIS I GAEL COFRESTRU'N ETHOLWR

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

(Os anfonir y ffurflen hon i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol drwy'r post rhaid talu'r cludiad ymlaen llaw.)

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

Cymwysterau i Gofrestru

Rhaid i etholwr fod yn preswylio yno ar y 10fed o Hydref diwethaf; rhaid bod etholwr gwasnaethol wedi gwneud datganiad gwasnaethol erbyn y dyddiad hwnnw.

Mae'n rhaid i'r person fod yn ddeiliad Prydeinig neu'n ddinesydd o Werinlywodraeth Iwerddon a rhaid iddo fod yn 18 oed neu dros hynny ar y 15fed o Chwefror y flwyddyn ar ôl y nesaf.

Noder. Os gwna neb ddatganiad anwir o blaid y cais hwn fe fydd yn agored i gael ei gosbi.

1. Cyfenw a theitl.....Enwau eraill.....
(Mr., Mrs., etc.) (LLYTHRENNAU BRAS)
(LLYTHRENNAU BRAS)
2. Cyfeiriad post llawn (mewn LLYTHRENNAU BRAS) yr adeilad (neu'r tir) y mae'r hawlydd yn mynnu cael ei gofrestru ar ei gyfer.

.....
.....
.....

3. (*a*) A fydd yr hawlydd yn 18 oed neu dros hynny ar yr 16fed o Chwefror nesaf? (Bydd neu Na fydd).....
(*b*) Os na fydd, rhowch ddyddiad y geni.....
4. (*a*) A oedd yr hawlydd yn byw yn y cyfeiriad uchod ar y 10fed o Hydref diwethaf? (Oedd neu Nac Oedd).....
(*b*) A oedd yr hawlydd wedi gwneud datganiad gwasnaethol erbyn y 10fed o Hydref diwethaf? (Oedd neu Nac Oedd).....
(*c*) A oedd yr hawlydd yn forwr ar long fasnach ar y 10fed o Hydref diwethaf? (Oedd neu Nac Oedd).....

DATGANIAD

Y mae'r manylion uchod yn wir ac yn gywir ym mhob modd. Y mae'r hawlydd yn ddeiliad Prydeinig neu yn ddinesydd o Werinlywodraeth Iwerddon; a hawlia'r etholfraint seneddol a/neu lywodraeth leol a haedda yn rhinwedd y manylion hyn.

Llofnod yr hawlydd neu'r sawl sy'n gwneud y cais ar ei ran
.....
Cyfeiriad y sawl sy'n gwneud y cais.....
.....
.....
Dyddiad.....

FORM P: FORM OF OBJECTION TO AN ENTRY IN THE ELECTORS LISTS

FFURFLEN P: FFURFLEN GWRTHWYNEBIAD I GOFNOD YN RHESTRAU'R ETHOLWYR

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

(Os anfonir y ffurflen hon i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol drwy'r post rhaid talu'r cludiad ymlaen llaw.)

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

Yr wyf trwy hyn yn rhoddi rhybudd fy mod yn gwrthwynebu cofrestru*

*Rhodder yma ddyfyniad o'r rhestrau etholwyr printiedig gan nodi'r enw a'r cyfeiriad a roddir gan yr hawlydd.

.....

.....

.....

.....

fel etholwr seneddol [yn unol â'r cais a wnaed ar ei ran]†

†Dileer os yw'n anaddas.

Sail fy ngwrthwynebiad ydyw.....

.....

.....

.....

.....

Yr wyf yn cael fy nghofrestru'n etholwr fel a ganlyn yn rhestrau'r etholwyr‡

‡Rhodder yma ddyfyniad o'r rhestrau etholwyr printiedig.

.....

.....

.....

Llofnod .....

Cyfeiriad .....

Dyddiad.....

PART II

FORM Q: APPLICATION TO BE TREATED AS AN ABSENT VOTER FOR AN INDEFINITE PERIOD OWING TO OCCUPATIONAL OR PHYSICAL INCAPACITY

FFURFLEN Q: CAIS AM DRINIAETH FEL PLEIDLEISIWR ABSENNOL AM GYFNOD AMHENODOL OHERWYDD GALWEDIGAETH NEU DDIFFYG CORFFOROL

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

(1) Yr wyf fi (Cyfenw).....
(LLYTHRENNAU BRAS)

(Enwau eraill) .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

yn gymwys i gael fy nghofrestru'n etholwr ar gyfer (cyfeiriad llawn mewn llythrennau bras)

.....

.....

(2) Yr wyf yn gwneud cais am gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol mewn etholiadau seneddol a llywodraeth leol gan fy mod yn debyg o fethu mynd yn bersonol i'r orsaf bleidleisio (neu, lle bo (*c*) neu (*d*) isod yn addas, i bleidleisio heb gynhorthwy)—

*(*a*) oherwydd natur gyffredinol fy ngalwedigaeth, fy ngwasanaeth, neu swydd fel *Dileer yr hyn sy'n anaddas.

.....
(Rhowch fanylion llawn dros wneud y cais)

*(*b*) oherwydd natur gyffredinol galwedigaeth, gwasanaeth neu swydd fy *ngŵr/ngwraig fel

.....
a'm habsenoldeb drwy hynny o'r cyfeiriad y cofrestrwyd fi ar ei gyfer

hyd .....
(nodwch y dyddiad pan fyddwch yn debygol o ddod yn ôl) er mwyn bod gyda'm *gŵr/gwraig

*(*c*) oherwydd dallineb† (cofrestrwyd fi fel person dall gan Gyngor .....) †Os yw'r sawl sy'n gwneud y cais heb ei gofrestru fel person dall dylid dileu'r geiriau mewn cromfachau a llenwi'r dystysgrif neu'r datganiad isod.

*(*d*) oherwydd diffyg corfforol (*gweler* Nodyn 2).....

Llofnodwyd..... Dyddiad.....

Y cyfeiriad yn y Deyrnas Gyfunol (llythrennau bras) lle dylid danfon y papur pleidleisio (os yw'n wahanol i'r un a roir uchod)

.....

.....

TYSTYSGRIF FEDDYGOL

*Dileer yr hyn sy'n anaddas.

Yr wyf fi, ymarferydd meddygol cofrestredig, yn tystio fod y datganiad yn 2(*c*)/(*d*)* uchod yn gywir, a bod diffyg y sawl sy'n gwneud y cais yn debyg o barhau am..... mis/gyfnod amhenodol*.

Llofnod .....
ymarferydd meddygol cofrestredig

Cyfeiriad .....

.....

Dyddiad.....

DATGANIAD

*Dileer yr hyn sy'n anaddas.

Yr wyf yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred fod y datganiad yn 2(*c*)/(*d*)* uchod yn gywir a bod diffyg y sawl sy'n gwneud y cais yn debyg o barhau am..... mis/gyfnod amhenodol*.

Llofnod .....

Galwedigaeth .....

Cyfeiriad .....

.....

Dyddiad.....

NODIADAU

1. Os caniateir y cais hwn, bydd yn parhau mewn grym nes i chi ei ddileu neu beidio â bod ar y gofrestr oblegid eich cyfeiriad presennol, neu gael eich cofrestru oherwydd cymhwyster gwahanol, neu nes rhydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol rybudd i chi i'r gwrthwyneb. Bydd y cais hwn yn ddigonol ar gyfer pob etholiad seneddol a llywodraeth leol y bydd gennych hawl i bleidleisio ynddynt, ac eithrio etholiadau cyngor plwyf neu gyngor cymdeithas. Dylid danfon cais am wahân am bob cyfeiriad y cofrestrir chi ar ei gyfer.

2. Lle seilir y cais ar anallu corfforol, fe'i caniateir gan y swyddog cofrestru etholiadol os rhoir y dystysgrif feddygol gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu os gwneir y datganiad gan ymarferydd o enwad Gwyddor Gristnogol. Mae'r bosibl y caiff ei ganiatau hefyd os gwneir y datganiad gan rywun arall.

3. Os seilir y cais ar natur eich galwedigaeth, eich gwasanaeth, neu eich swydd (neu eiddo'ch gŵr neu'ch gwraig), a chithau'n debyg o fod ar y môr neu y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol adeg etholiad, gellwch wneud cais am benodi dirprwy i bleidleisio ar eich rhan. Os gwnewch hyn, gwnewch gais am Ffurflen U y gellwch ei chael oddi wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

4. Os penodwyd chi'n ddirprwy dros etholwr yn yr un etholaeth seneddol neu ranbarth etholiadol llywodraeth leol, gellwch wneud cais ar Ffurflen V i bleidleisio felly drwy'r post, ond ni chewch wneud hyn os ydych chi eich hun wedi penodi dirprwy ar eich rhan.

Gellir cael Ffurflen V oddi wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

5. Dylid hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar unwaith os bydd unrhyw newid yn y cyfeiriad lle dylid danfon papurau pleidleisio. Os arhoswch nes daw etholiad, efallai y byddwch yn rhy hwyr.

FORM R: APPLICATION TO VOTE BY POST OWING TO CHANGE OF RESIDENCE

FFURFLEN R: CAIS I BLEIDLEISIO DRWY'R POST OHERWYDD NEWID CYFEIRIAD

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Yr wyf fi (Cyfenw) .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

(Enwau eraill) .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

yn gymwys i gael fy nghofrestru fel etholwr yn (yr hen gyfeiriad yn llawn mewn llythrennau bras)

.....

.....

.....

Yr wyf yn gwneud cais am gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol mewn etholiadau seneddol am nad wyf bellach yn byw yno. Fy nghyfeiriad newydd yw (y cyfeiriad yn llawn, mewn llythrennau bras)

.....

.....

.....

Llofnod..... Dyddiad.....

NODIADAU

1. Os caniateir y cais hwn, fe ddeil mewn grym ar gyfer pob etholiad seneddol cyhyd â'ch bod yn parhau wedi'ch cofrestru yn eich hen gyfeiriad.

2. NID yw absenoldeb dros dro, e.e. ar wyliau, i'w gyfrif fel newid cyfeiriad.

3. Ni ellir caniatau'r cais hwn os digwydd fod eich cyfeiriad ar hyn o bryd a'ch cyfeiriad ar y rhestr etholwyr o fewn yr un rhanbarth mewn sir yng Nghymru ac yn yr un gymdeithas.

4. Os ydych wedi'ch penodi'n ddirprwy dros etholwr, gellwch wneud cais ar Ffurflen V am bleidleisio felly drwy'r post mewn etholiadau seneddol. Gellir cael Ffurflen V oddi wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

FORM S: APPLICATION TO BE TREATED AS AN ABSENT VOTER FOR A PARTICULAR ELECTION

FFURFLEN S: CAIS AM DRINIAETH FEL PLEIDLEISIWR ABSENNOL AT ETHOLIAD ARBENNIG

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Yr wyf fi (Cyfenw) .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

(Enwau eraill) .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

yn gymwys i gael fy nghofrestru'n etholwr ar gyfer (cyfeiriad llawn mewn llythrennau bras)

.....

.....

.....

ac yr wyf yn gwneud cais am gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol yn yr etholiad seneddol/llywodraeth leol sydd i ddod (*gweler* Nodyn 1) yn etholaeth/rhanbarth etholiadol llywodraeth leol

..... gan fy mod yn debyg o fethu mynd

yn bersonol i'r orsaf bleidleisio a benodwyd i mi, oherwydd—

*(*a*) fy ngwasanaeth yn un o luoedd cynorthwyol neu gefnlu Ei Mawrhydi (*gweler* Nodyn 2)

.....

*(*b*) fy ngwaith ddiwrnod y pleidleisio

*(i) fel cwnstabl;

(ii) yng ngwasanaeth y swyddog canlyniadau neu'r maer ynglŷn â'r etholiad yn etholaeth/rhanbarth etholiadol llywodraeth leol

.....

*(*c*) fy mod yn gorfod dilyn defodau crefyddol (*gweler* Nodyn 3)

*Dileer yr hyn sy'n anaddas.

.....

*(*d*) fy mod yn gwasanaethu fel swyddog canlyniadau ar gyfer etholaeth/rhanbarth etholiadol llywodraeth leol

.....

*(*e*) fy mod i/bod fy ngŵr/fy ngwraig yn sefyll fel ymgeisydd yn etholaeth

.....

Llofnod..... Dyddiad.....

Y cyfeiriad yn y Deyrnas Gyfunol (mewn llythrennau bras) lle dylid danfon papur pleidleisio (os yw'n wahanol i'r un a roir uchod)

.....

.....

TYSTYSGRIF

I'w llenwi lle bo (c) uchod yn gymwys

Yr wyf yn tystio fod y datganiad yn (*c*) uchod yn gywir.

Llofnod .....
(Gweinidog o enwad crefyddol yr etholwr)

Cyfeiriad .....

.....

Dyddiad.....

NODIADAU

1. Lle bo (*a*), (*b*) neu (*c*) yn gymwys, gellir gwneud y cais ar gyfer unrhyw etholiad seneddol neu lywodraeth leol ac eithrio etholiad cyngor cymdeithas. Lle bo (*d*) yn gymwys, gellir gwneud y cais ar gyfer etholiad seneddol cyffredinol neu etholiad llywodraeth leol arferol (gyda'r un eithriadau). Lle bo (*e*) yn gymwys, gellir gwneud y cais ar gyfer etholiad seneddol cyffredinol yn unig.

2. Lle bo (*a*) yn gymwys, rhaid i'r cais ddynodi enw'r llu cynorthwyol neu'r cefnlu dan sylw. Os gwneir y cais ar gyfer etholiad seneddol arbennig, a chithau'n debyg o fod ar y môr neu y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol ar ddiwrnod y pleidleisio, gellwch wneud cais ar Ffurflen U i benodi dirprwy i bleidleisio ar eich rhan.

3. Lle bo (*c*) yn gymwys, rhaid i'r cais ddynodi natur ac amserau'r defodau crefyddol. Rhaid i weinidog o'ch enwad crefyddol lenwi'r dystysgrif.

4. Os penodwyd chi'n ddirprwy dros etholwr yn yr un etholaeth neu ranbarth etholiadol llywodraeth leol, gellwch wneud cais ar Ffurflen V i bleidleisio felly, drwy'r post, ond ni ellwch wneud hyn os ydych chi eich hun wedi penodi dirprwy ar eich rhan.

Gellir cael y ffurflenni y soniwyd amdanynt oddi wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

FORM U: APPLICATION FOR APPOINTMENT OF PROXY

FFURFLEN U: CAIS I BENODI DIRPRWY

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

(Ni ddylai etholwyr gwasnaethol ddefnyddio hon)

Yr wyf fi (Cyfenw).....
(LLYTHRENNAU BRAS)

(Enwau eraill) .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

yn gymwys i gael fy nghofrestru fel etholwr ar gyfer (cyfeiriad llawn mewn llythrennau bras)

.....
.....
.....

Yr wyf wedi gwneud cais i gael fy nhrin fel pleidleisiwr absennol—

*Dileer yr hyn sy'n anaddas.

(*a*) mewn etholiadau seneddol a llywodraeth leol oherwydd—

*(i) natur gyffredinol fy ngalwedigaeth, fy ngwasanaeth, neu swydd;

*(ii) natur gyffredinol galwedigaeth, gwasanaeth, neu swydd fy *ngŵr/ngwraig a'm habsenoldeb oherwydd hynny o'r cyfeiriad y cofrestrwyd fi ar ei gyfer er mwyn bod *gydag ef/gyda hi;

*(*b*) yn yr etholiad seneddol sydd i ddod yn etholaeth..... oherwydd fy ngwasanaeth yn lluoedd cynorthwyol neu gefnlu Ei Mawrhydi;

a datganaf fy mod yn debyg o fod ar y môr neu y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol ar ddiwrnod y pleidleisio.

Felly yr wyf yn gwneud cais am benodi'r person a enwir isod fel y dewis cyntaf (neu, os yw ef neu hi'n anfodlon neu'n analluog i gael ei benodi, y person a enwir yn ail ddewis) i fod yn ddirprwy i bleidleisio ar fy rhan.

PENODI DIRPRWY

1. Dewis cyntaf (rhaid i'r etholwr lenwi hwn)

Enwau llawn.....
(LLYTHRENNAU BRAS)

Cyfeiriad post.....
(LLYTHRENNAU BRAS)

.....

Y berthynas, os o gwbl, â'r etholwr

.....

2. Ail ddewis (dylai'r etholwr lenwi'r rhan hon oherwydd fe all y bydd y dewis cyntaf yn anfodlon neu'n analluog i gael ei benodi)

Enwau llawn.....
(LLYTHRENNAU BRAS)

Cyfeiriad post .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

Y berthynas, os o gwbl, â'r etholwr

.....

Llofnod..... Dyddiad.....

NODIADAU

1. Rhaid i berson sy'n pleidleisio fel dirprwy fod yn ddeiliad Prydeinig neu'n ddinesydd o Werinlywodraeth Iwerddon a bod yn ddigon hen i bleidleisio, a heb achos cyfreithiol yn rhwystro iddo bleidleisio.

2. Lle bo (*a*) yn gymwys, bydd gan y dirprwy a benodir o ganlyniad i'ch cais am gael triniaeth fel pleidleisiwr absennol, hawl i bleidleisio ar eich rhan ym mhob etholiad seneddol a llywodraeth leol, ac eithrio etholiad cyngor cymdeithas.

3. Lle bo (*b*) yn gymwys, ni saif penodiad y dirprwy ond ar gyfer etholiad seneddol yn unig.

FORM V: APPLICATION BY A PROXY TO VOTE BY POST

FFURFLEN V: CAIS GAN DDIRPRWY I BLEIDLEISIO DRWY'S POST

DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Yr wyf fi (Cyfenw).....
(LLYTHRENNAU BRAS)

(Enwau eraill).....
(LLYTHRENNAU BRAS)

*Fel y dangosir ar y papur dirprwy.

wedi fy mhenodi'n ddirprwy i

(*Enw) .....
(LLYTHRENNAU BRAS)

sydd wedi'i gofrestru'n etholwr yn

(*Cyfeiriad y cofrestrwyd ef ar ei gyfer).....
(LLYTHRENNAU BRAS)

.....

ac yr wyf yn gwneud cais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy dros yr etholwr a enwyd uchod oherwydd—

†(*a*) fod gennyf hawl i bleidleisio drwy'r post fel pleidleisiwr absennol y cyfeiriad y cofrestrwyd fi ar ei gyfer fel etholwr yw (cyfeiriad llawn mewn llythrennau bras)

.....

.....

†Dileer yr hyn sy'n anaddas.

†(*b*) fod y cyfeiriad a roir isod mewn rhanbarth gwahanol i'r cyfeiriad y cofrestrwyd yr etholwr uchod ar ei gyfer (*gweler* Nodyn 2).

Dylid danfon papur pleidleisio i mi yn y cyfeiriad canlynol (llythrennau bras) yn y Deyrnas Gyfunol

.....

.....

.....

Llofnod..... Dyddiad.....

NODIADAU

1. Lle bo (*a*) yn gymwys, bydd y cais hwn, os caniateir ef, mewn grym at gyfer pob etholiad seneddol a llywodraeth leol (ac eithrio etholiadau cyngor cymdeithas) y mae eich cais i gael triniaeth fel pleidleisiwr absennol mewn grym ar eu cyfer, cyhyd ag y bydd eich penodiad fel dirprwy yn parhau. Lle bo (*b*) yn gymwys, bydd y cais mewn grym ar gyfer etholiadau seneddol yn unig a bydd yn parhau mewn grym nes i chi ei ddiddymu neu beidio â bod y ddirprwy dros yr etholwr.

2. Lle bo (*b*) yn gymwys, ni ellir caniatau'r cais os yw eich cyfeiriad a'r cyfeiriad y cofrestrwyd yr etholwr ar ei gyfer yn yr un rhanbarth etholiadol mewn sir yng Nghymru ac yn yr un gymdeithas.

EXPLANATORY NOTE

(This Note is not part of the Regulations.)

These Regulations prescribe Welsh versions of certain electoral forms which are set out in the Schedule to the Representation of the People Regulations 1974. Both the Welsh versions and the prescribed English forms are similar to those previously prescribed. In Schedule 1 are certain forms, partly in Welsh and partly in English, which must be used in connection with elections in Wales. In Schedule 2 are Welsh versions of certain forms which may be used in connection with elections in Wales.

SI 1975/1329
ISBN 0-11-051329-0

